



Polisi Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion

Dyddiad y Polisi: Mai 2025

Adolygiad: Mai 2026

- 1.1 Mae absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion yn amser rhesymol i:
- ddelio ag argyfwng sy'n cynnwys dibynnydd
 - gwneud trefniadau amgen ar gyfer gofal parhaus neu hirdymor i ddibynnydd.

Gall dibynnydd fod yn briod, partner, plentyn, wŷr/wyres, rhiant, rhywun sy'n dibynnu arnoch am ofal, neu rywun sy'n dibynnu arnoch i drefnu gofal.

- 1.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr. Mae hyn yn cynnwys staff llawn-amser, rhan-amser, dros dro a chontractau tymor penodol. Nid yw'n berthnasol i weithwyr asiantaeth na chontractwyr hunangyflogedig.

- 1.3 Mae'r polisi hwn yn disgrifio:
- pwy all gymryd absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion
 - pryd y gallwch ei gymryd
 - pwy i gysylltu os oes angen i chi ei gymryd
 - sut rydym yn casglu a storio data personol wrth reoli absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion.

Siaradwch â'ch rheolwr os oes angen trafod trefniadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi hwn.

2 Pwy all gymryd absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion

Mae gan bob gweithiwr hawl i amser i ffwrdd i ddelio ag argyfwng sy'n cynnwys dibynnydd.

3 Pryd y gallwch gymryd absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion

Mae absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion yn cynnwys absenoldeb heb ei gynllunio, fel y gallwch fynd at ddibynnydd mewn sefyllfa frys neu ddifrifol.

Enghreifftiau o absenoldeb heb ei gynllunio:

- i helpu neu ofalu am ddibynnydd sydd wedi mynd yn sâl, yn rhoi genedigaeth, wedi'i anafu neu ei ymosod
- i drefnu gofal i ddibynnydd sydd yn sâl neu wedi'i anafu
- i drefnu gofal brys i ddibynnydd y mae ei ofal presennol wedi'i darfu'n annisgwyl
- i ddelio ag achlysur annisgwyl sy'n cynnwys eich plentyn
- i ddelio â marwolaeth dibynnydd.

Nid yw absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion wedi'i fwriadu i ganiatáu i ofalwyr edrych ar ôl dibynyddion yn barhaus.

Os oes angen i chi aros a gofalu am ddibynnydd yn barhaus, gallwch gytuno gyda'ch rheolwr i gymryd gwyliau blyneddol, neu fath arall o absenoldeb (os yn berthnasol). Er enghraifft, efallai y gallwch gymryd absenoldeb rhiant os yw'r gofal ar gyfer eich plentyn.

Os nad oes gennych ddigon o wyliau ar gael, efallai y bydd angen cymryd absenoldeb di-dâl yn lle.

Fel arfer, bydd unrhyw absenoldeb yn ddi-dâl, ond efallai y byddwn yn dewis rhoi absenoldeb â thâl mewn rhai amgylchiadau.

3.1 Absenoldeb gofalwr

Mae absenoldeb gofalwr ar gael os oes angen i chi gymryd amser i ffwrdd i helpu rhywun sy'n dibynnu arnoch am ofal hirdymor. Mae'n wahanol i absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein polisi absenoldeb gofalwr.

Gallwch hefyd <https://www.acas.org.uk/carers-leave>

4 Pwy i gysylltu

Os oes angen i chi gymryd absenoldeb brys ar gyfer dibynyddion, cysylltwch â'ch rheolwr cyn gynted â phosibl i egluro:

- beth sydd wedi digwydd
- pryd y gallech fod yn ôl yn y gwaith.

Os nad yw eich rheolwr ar gael, dylech gysylltu â rheolwr uwch neu gyfarwyddwr arall yn lle.

Diogelu data

Wrth reoli eich absenoldeb ar gyfer dibynyddion, rydym yn prosesu data personol a gesglir o dan ein polisi diogelu data. Rydym yn storio data yn ddiogel, ac dim ond staff sy'n rheoli eich absenoldeb a'ch cyflog fydd â mynediad i'r wybodaeth hon.

I ddarganfod mwy, darllenwch ein polisi diogelu data.